




**Gosber ar Gân
â Gosod Archddiaconiaid, Canoniaid
a Chlerigion**

1 Hydref 2023 am 3.30pm


**Choral Evensong with
the Installation of Archdeacons, Canons
& Clergy**

1 October 2023 at 3.30pm




**Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor**

**Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor**



*Croeso i
Gadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor.*

*Welcome to
Saint
Deiniol's
Cathedral in
Bangor.*



Rydych chi'n sefyll rwan
lle safodd Deiniol bron i
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn
525, bu iddo gynnull o'i
gwmpas gymuned lawn
ffydd, gobaith a chariad,
gan godi o'i chwmpas
ffens gyll—y **bangor**
gwreiddiol—iddi'n gysgod
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch
chwithau, hefyd, eich
cofleidio yma gan yr un
ffydd, gobaith a chariad
a gyhoeddir gennym
heddiw ac sy'n ein
cyfareddu o hyd.

You stand now where
Deiniol stood almost a
millennium and a half ago.

Here, in the year 525, he
gathered around him a
community of faith, hope
and love, and raised
around it a hazel fence—
the original **bangor**—for
shelter and sanctuary.

Our prayer is that you,
too, will be embraced
here by the same faith,
hope and love that we
proclaim and live by
today.

Yn y Gosber

Mae i oedfa'r Gosber ar Gân wreiddiau dwfn. Mae'n waddol o fuchedd gweddi y mynachlogydd Benedictaidd, lle roedd treigl oriau'r dydd yn esgor ar weddi ar y cyd. Daw'r ffurf a ddefnyddiwn heddiw o Lyfr Gweddi Gyffredin yr unfed ganrif ar bymtheg, lle cyfunwyd dau o'r oedfaon mynachaid hynafol i ffurfio oedfa i'w hoffrymu'n blwyfol ar drefyn dydd, ac mewn cadeirlannau ar gân.

Yn ein Gosber, byddwn yn gwranddo ar lithoedd o'r Hen Destament a'r Newydd, ac yn canu'r ddwy gân hwyrrol o'r Efyngyl yn ôl Sant Luc – y *Magnificat* (cân am ein hyder yn addewid oesol Duw) a'r *Nunc dimittis* (cân am ein cyflawniad yng ngholeuni oesol Crist). Mae gweddi ar gân ac ar goedd yn ein dwyn, galon a meddwl, tuag at Dduw.

Heddiw, caiff Archddiaconiaid, Canoniaid a Chlerigion newydd yn cael eu harwain o Gorff yr Eglwys i'w Seddau yn y Cwîr a'r Seintwar. Mae eu Seddau penodedig yn arwydd o'u hymrwymiad i gyfrannu at ein bywyd ar y cyd yn y Gadeirlan a'r esgobaeth. Eisteddant, fel yr ydym i gyd yn ei wneud heno, yn wynebu ei gilydd – amlygiad o golegoldeb creiddiol Corff Crist.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✠. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo.

At Evensong

The service of Choral Evensong has deep roots. It is an inheritance from the prayer life of Benedictine monasteries, where the turning of the hours of the day was marked by communal prayer. The service we know today is from the sixteenth-century Book of Common Prayer, in which two of the ancient monastic observances were combined to form a service to mark the end of the day – and “in quires and places where they sing,” to do so chorally.


At Evensong, we listen to lessons from the Old and New Testaments, and sing the two evening songs from the Gospel According to Saint Luke – the *Magnificat* (a song about our confidence in God's enduring promise) and the *Nunc dimittis* (a song of about our fulfilment in Christ enduring light). Sung and spoken prayer draw us heart and mind to God.

Today, new Archdeacons, Canons and Clergy are led from the Nave to their Stalls in the Cathedral's Quire and Presbytery. Their assigned Stalls are a sign of the undertaking they have given to contribute to the common life of the Cathedral and the diocese. They sit, as we all do this evening, facing one another – a manifestation of the collegiality of the Body of Christ.

During our worship, we say and sing together the text **in bold type**. We may make a sign of the Cross at times when the words are marked with ✠. Other directions (rubrics) are offered **in red type**; if you find it more comfortable to sit rather than stand or kneel, please do so.

You are invited to take the booklet away with you, to reflect in your own time on the holy words it contains.

Trefn Order



Codwn ar ein traed ar ganiad y gloch | We stand as the bell is rung



Cynnull *Gathering*

Deisyfiadau *Preces*

Ŵ ✕ O lôr, rho i'n gwefus gân.
R̄ Aed yn bêr hyd y nef ein mawl.

Ŵ ✕ O Dduw, cofleidia'n hadfyd.
R̄ O Grist, dy ras yw'n golud.

Ŵ Gogoniant fo i Dduw Dad, ac i Dduw'r Mab,
ac i Dduw'r Ysbryd Glân,
R̄ Fel yr oedd yn y dechreuad, mae'n awr, a'n fythol y bydd;
yn oes oesoedd. Amen.

Ŵ Molwch yr lôr.
R̄ Addolwn ein Duw.

Translation

Ŵ ✕ O Lord, open thou our lips. R̄ And our mouth shall shew forth thy praise. Ŵ ✕ O God, make speed to save us. R̄ O Lord, make haste to help us. Ŵ Glory be to the Father, and to the Son, and to the Holy Ghost. R̄ As it was in the beginning, is now, and ever shall be, world without end. Amen. Ŵ Praise ye the Lord. R̄ The Lord's name be praised.

Geiriau | Words

Addasiad cyfoes a chyd-destunol o Saesneg y **Llyfr Gweddi Gyffredin** (1662) yw'r Gymraeg | The Welsh-language text is a contemporary and contextualized adaptation of the English of the **Book of Common Prayer** (1662)

Cerddoriaeth | Music

Paul Spicer

Brawddeg *Sentence*

"Bloeddiwch mewn gorfoledd i Dduw, yr holl ddaear; canwch i ogoniant Duw; rhowch foliant gogoneddus."

Translation

"Be joyful in God, all you lands; sing the glory of God's Name; sing the glory of God's praise."



Angel-voices ever singing
round thy throne of light,
angel-harps for ever ringing,
rest not day nor night;
thousands only live to bless thee
and confess thee
Lord of might.

Ti sy 'mhell tu hwnt i gyrraedd
ein golygon ni,
all meidrolion pechadurus
ddod i'th ymyl di?
Dwed a elli di ein gwranddo
a'n cysuro?
"Gallaf fi."

Yea, we know that thou rejoicest
o'er each work of thine;
thou didst ears and hands and voices
for thy praise design;
craftsman's art and music's measure
for thy pleasure
all combine.

D'eiddo ydym; O sancteiddia
ninnau yn dy dŷ;
cymer galon, corff a meddwl
i'th wasanaeth di,
fel y gweler dy dangnefedd
a'th orfoledd
ynom ni.

Honour, glory, might, and merit
thine shall ever be,
Father, Son, and Holy Spirit,
blessèd Trinity.
Of the best that thou hast given
earth and heaven
render thee.

Translation

*Thou who art beyond the farthest mortal eye
can scan, can it be that thou regardest songs
of sinful man? Can we know that thou art near
us, and wilt hear us? Yea, we can. ¶ In thy house,
great God, we offer of thine own to thee; and for
thine acceptance proffer all unworthily hearts
and minds and hands and voices in our choicest
psalmody.*

Geiriau | Words

Francis Pott (1832-1909)

Efelychiad | Paraphrase

May Harris (1905-1976)

Cerddoriaeth | Music | "Cân Angylion | Angel Voices"

Edwin George Monk (1819-1900)

Eisteddwn | We sit

Gair Word

Salmyddiaeth Psalmody

You are to be praised, O God, in Zion; to you shall vows be performed in Jerusalem.

To you that hear prayer shall all flesh come, because of their transgressions.

Our sins are stronger than we are, but you will blot them out.

Happy are they whom you choose and draw to your courts to dwell there; they will be satisfied by the beauty of your house, by the holiness of your temple.

Awesome things will you show us in your righteousness, O God of our salvation, O Hope of all the ends of the earth and of the seas that are far away.

You make fast the mountains by your power; they are girded about with might.

You still the roaring of the seas, the roaring of their waves, and the clamour of the peoples.

Those who dwell at the ends of the earth will tremble at your marvellous signs; you make the dawn and the dusk to sing for joy.

You visit the earth and water it abundantly; you make it very plenteous; the river of God is full of water.

You prepare the grain, for so you provide for the earth.

You drench the furrows and smooth out the ridges; with heavy rain you soften the ground and bless its increase.

You crown the year with your goodness, and your paths overflow with plenty.

May the fields of the wilderness be rich for grazing, and the hills be clothed with joy.

May the meadows cover themselves with flocks, and the valleys cloak themselves with grain; let them shout for joy and sing.

Codwn ar ein traed | We stand

Glory be to the Father, and to the Son: and to the Holy Ghost;
as it was in the beginning, is now and ever shall be; world
without end. Amen.

Salm | Psalm 65
Cerddoriaeth | Music
Francis Jackson (1917-2022)

Eisteddwn | We sit

Llith Lesson

Wedi ei darllen gan Archddiacon Bangor Read by the Archdeacon of Bangor

Here begins the fourteenth chapter of the Book of the Prophet Hosea.

Thus says the Holy One: Return, O Israel, to the Holy One your God, for you have stumbled because of your iniquity. Take words with you and return to the Living One; say to God, "Take away all guilt; accept that which is good, and we will offer the fruit of our lips. Assyria shall not save us; we will not ride upon horses; we will say no more, 'Our God', to the work of our hands. In you the orphan finds mercy." I will heal their disloyalty; I will love them freely, for my anger has turned from them. I will be like the dew to Israel; he shall blossom like the lily, he shall strike root like the forests of Lebanon. His shoots shall spread out; his beauty shall be like the olive tree, and his fragrance like that of Lebanon. They shall again live beneath my shadow, they shall flourish as a garden; they shall blossom like the vine, their fragrance shall be like the wine of Lebanon. O Ephraim, what have I to do with idols? It is I who answer and look after you. I am like an evergreen cypress; your faithfulness comes from me. Those who are wise understand these things; those who are discerning know them. For the ways of the Eternal One are right, and the upright walk in them, but transgressors stumble in them.

Here ends the First Lesson.

Hosea 14:1-9

Codwn ar ein traed | We stand

Magnificat



Fy enaid a fawrha yr Arglwydd, a'm hysbryd a lawenychodd yn Nuw fy lawchawdwr. Canys efe a edrychodd ar ostyngyddrwydd ei wasanaethyddes. Oblegid wele, o hyn allan, yr holl genedlaethau a'm geilw yn wynfydedig. Canys yr hwn sydd alluog a wnaeth i mi fawredd, a sanctaidd yw ei enw ef. A'i drugaredd sydd yn oes oesoedd ar y rhai a'i hofna ef. Efe a ddangosodd nerth â'i fraich: efe a wasgarodd y rhai balch eu calon. Efe a dynnodd i lawr y cedyrn o'u heisteddfâu, ac a ddyrchafodd y rhai isel radd. Efe a lanwodd y rhai newynog â phethau da, ac a anfonodd ymaith y rhai goludog mewn eisiau. Efe a gynorthwyodd ei was Israel, gan gofio ei drugaredd. Fel y dywedodd wrth ein tadau, Abraham a'i had, yn dragywydd. Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân. Megis yr oedd yn y dechrau, y mae'n awr hon, ac y bydd yn wastad: yn oes oesoedd. Amen.

Translation

My soul doth magnify the Lord. And my spirit hath rejoiced in God my Saviour. For he hath regarded the lowliness of his handmaiden; for behold, from henceforth, all generations shall call me blessed. For he that is mighty hath magnified me: and holy is his Name. And his mercy is on them that fear him: throughout all generations. He hath shewed strength with his arm; he hath scattered the proud in the imagination of their hearts. He hath put down the mighty from their seat, and hath exalted the humble and meek. He hath filled the hungry with good things, and the rich he hath sent empty away. He remembering his mercy hath holpen his servant Israel, as he promised to our forefathers, Abraham and his seed for ever. Glory be to the Father, and to the Son, and to the Holy Ghost, as it was in the beginning, is now, and ever shall be, world without end. Amen.

Cerddoriaeth | Music

Gwasanaeth Hwyl Cyntaf | First Evening Service.

Joe Cooper

Eisteddwn | We sit

Wedi ei darllen gan Archddiacon Meirionnydd

Read by the Archdeacon of Meirionnydd

Yma y mae yn dechrau pymthegfed bennod yr Efengyl yn ôl Sant Iwan.

Bryd hynny: Dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion, "Myfi yw'r wir winwydden, a'm Tad yw'r gwinllannwr. Y mae ef yn torri i ffwrdd bob cangen ynof fi nad yw'n dwyn ffrwyth, ac yn glanhau pob un sydd yn dwyn ffrwyth, er mwyn iddi ddwyn mwy o ffrwyth. Yr ydych chi eisoes yn lân trwy'r gair yr wyf wedi ei lefaru wrthyh. Arhoswch ynof fi, a minnau ynoch chi. Ni all y gangen ddwyn ffrwyth ohoni ei hun, heb iddi aros yn y winwydden; ac felly'n union ni allwch chwithau heb i chi aros ynof fi. Myfi yw'r winwydden; chi yw'r canghennau. Y mae'r sawl sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, yn dwyn llawer o ffrwyth, oherwydd ar wahân i mi ni allwch wneud dim. Os na fydd rhywun yn aros ynof fi, caiff ei daflu i ffwrdd fel y gangen ddiffwrwyth, ac fe wywa; dyma'r canghennau a gesglir, i'w taflu i'r tân a'u llosgi. Os arhoswch ynof fi, ac os erys fy ngeiriau ynoch chi, gofynnwch am beth a fyynnwch, ac fe'i rhoddir i chi. Dyma sut y gogoneddir fy Nhadau: trwy i chi ddwyn llawer o ffrwyth a bod yn ddisgyblion i mi. Fel y mae'r Tad wedi fy ngharu i, yr wyf finnau wedi eich caru chi. Arhoswch yn fy nghariad i. Os cadwch fy ngorchmynion fe arhoswch yn fy nghariad, yn union fel yr wyf fi wedi cadw gorchmynion fy Nhadau, ac yr wyf yn aros yn ei gariad ef. Yr wyf wedi dweud hyn wrthyh er mwyn i'm llawenydd i fod ynoch, ac i'ch llawenydd chi fod yn gyflawn. Dyma fy ngorchymyn i: carwch eich gilydd fel y cerais i chi. Nid oes gan neb gariad mwy na hyn, sef bod rhywun yn rhoi ei einioes dros ei gyfeillion. Yr ydych chi'n gyfeillion i mi os gwnewch yr hyn yr wyf fi'n ei orchymyn i chi. Nid wyf mwyach yn eich galw yn weision, oherwydd nid yw'r gwas yn gwybod beth y mae ei feistr yn ei wneud. Yr wyf wedi eich galw yn gyfeillion, oherwydd yr wyf wedi gwneud yn hysbys i chi bob peth a glywais gan fy Nhadau. Nid chi a'm dewisodd i, ond myfi a'ch dewisodd chi, a'ch penodi i fynd allan a dwyn ffrwyth, ffrwyth sy'n aros. Ac yna, fe rydd y Tad i chi beth bynnag a ofynnwch ganddo yn fy enw i. Dyma'r gorchymyn yr wyf yn ei roi i chi: carwch eich gilydd."

Yma y terfyn yr Ail Llith.

Translation over the page

Translation

At that time: Jesus said to his disciples, "I am the true vine, and my Father is the vine-grower. He removes every branch in me that bears no fruit. Every branch that bears fruit he prunes to make it bear more fruit. You have already been cleansed by the word that I have spoken to you. Abide in me as I abide in you. Just as the branch cannot bear fruit by itself unless it abides in the vine, neither can you unless you abide in me. I am the vine, you are the branches. Those who abide in me and I in them bear much fruit, because apart from me you can do nothing. Whoever does not abide in me is thrown away like a branch and withers; such branches are gathered, thrown into the fire, and burned. If you abide in me, and my words abide in you, ask for whatever you wish, and it will be done for you. My Father is glorified by this, that you bear much fruit and become my disciples. As the Father has loved me, so I have loved you; abide in my love. If you keep my commandments, you will abide in my love, just as I have kept my Father's commandments and abide in his love. I have said these things to you so that my joy may be in you, and that your joy may be complete. This is my commandment, that you love one another as I have loved you. No one has greater love than this, to lay down one's life for one's friends. You are my friends if you do what I command you. I do not call you servants any longer, because the servant does not know what the master is doing; but I have called you friends, because I have made known to you everything that I have heard from my Father. You did not choose me but I chose you. And I appointed you to go and bear fruit, fruit that will last, so that the Father will give you whatever you ask him in my name. I am giving you these commands so that you may love one another."

Ioan | John 15:1-17

Codwn ar ein traed | We stand

Nunc Dimittis



Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd, ar ôl dy air. Canys fy llygaid a welodd dy iachawdwriaeth; yr hon a baratoaist gerbron wyneb yr holl bobl. I fod yn oleuni i oleuo'r Cenhedloedd, ac yn ogoniant i'th bobl Israel. Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân. Megis yr oedd yn y dechrau, y mae'n awr hon, ac y bydd yn wastad: yn oes oesoedd. Amen.

Translation

Lord, now lettest thou thy servant depart in peace according to thy word. For mine eyes have seen thy salvation, which thou hast prepared before the face of all people; to be a light to lighten the Gentiles and to be the glory of thy people Israel. Glory be to the Father, and to the Son, and to the Holy Ghost, as it was in the beginning, is now, and ever shall be, world without end. Amen.

Cerddoriaeth | Music
Gwasanaeth Hwyrol Cyntaf | First Evening Service,
Joe Cooper

Eisteddwn ar gyhwyn y bregeth | We sit at the start of the sermon

Pregeth Sermon

Archegob Cymru | The Archbishop of Wales



Safwn wrth i'r organ seinio ffanffer ar ddiwedd y bregeth | We stand as the organ sounds a fanfare at the end of the sermon



Gosod *Installation*

Anthem

**Wedi ei chyfansoddi'n arbennig ar gyfer y gwasanaeth hwn
a'i pherfformio am y tro cyntaf heddiw**

**Specially composed for this service
and performed for the first time today**

I lift up my eyes to the hills; from where is my help to come? My help comes from God. Dy droed i lithro ef nis gâd, a'th geidwad fydd heb huno.

Translation

God will not let your foot be moved; the One who watches over you will not sleep.

Geiriau | Words

Salm | Psalm 121:1-3

Cerddoriaeth | Music

Alexander Mills

Tywys Leading by the hand

Tywysir yr Archddiaconaid, y Canonïaid a'r Clerigion newydd i'w Seddau gan gynrychiolwyr esgobaethol | The new Archdeacons, Canons and Clerics are led to their Stalls by diocesan representatives

Archddiaconïaid Archdeacons

**Wedi eu tywys gan Brebendari Llanfair
i Sedd Archddiacon Bangor**
**Led by the Prebendary of Llanfair
to the Stall of the Archdeacon of Bangor**
Yr Hyb. | The Ven. David Parry

**Wedi eu tywys gan Brebendari Penmynydd
i Sedd Archddiacon Meirionnydd**
**Led by the Prebendary of Penmynydd
to the Stall of the Archdeacon of Meirionnydd**
Yr Hyb. | The Ven. Robert Townsend

Canonïaid Mygedol Honorary Canons

**Wedi eu tywys gan gynrychiolydd
o Ardal Weinidogaeth Bro Ystumanner
i Sedd Celynnin Sant,**
wedi ei neilltuo ar gyfer y Canon Amgylcheddwr
**Led by a representative of the Ministry Area of Bro Ystumanner
to the Stall of Saint Celynnin,
assigned to the Canon Environmentalist**
Yr Athro | Prof. Robin Grove-White

**Wedi eu tywys gan gynrychiolydd
o Ardal Weinidogaeth Bro Dwynwen
i Sedd Santes Dwynwen,**
wedi ei neilltuo ar gyfer y Canon Bregethwr
**Led by a representative of the Ministry Area of Bro Dwynwen
to the Stall of Saint Dwynwen,
assigned to the Canon Preacher**
Y Parchg | The Revd Jarel Robinson-Brown

**Wedi eu tywys gan gynrychiolydd
o Ardal Weinidogaeth Bro Ardudwy
i Sedd Tanwg Sant,
wedi ei neilltuo ar gyfer y Canon Lyfrgellydd**
**Led by a representative of the Ministry Area of Bro Ardudwy
to the Stall of Saint Tanwg,
assigned to the Canon Librarian**
Yr Athro | Prof. Helen Wilcox

**Wedi eu tywys gan gynrychiolydd
o Ardal Weinidogaeth Bro Cadwaladr
i Sedd Cadwaladr Sant,
wedi ei neilltuo ar gyfer y Canon Brifardd**
**Led by a representative of the Ministry Area of Bro Cadwaladr
to the Stall of Saint Cadwaladr,
assigned to the Canon Bard**
Siôn Aled

Clerigion **Clergy**

**Wedi eu tywys gan y Darllenydd
i Seddau'r Seintwar**
**Led by the Reader
to the Presbytery Stalls**
Y Parchg | The Revd Neville Naidoo
Darpar Gaplan Prifysgol a Chymuned
University & Community Chaplain Designate

Canoniaid Gwaddol **Foundation Canons**

**Wedi eu tywys gan y Canon Ganghellor
i Seddau'r Canoniaid Gwaddol**
**Led by the Canon Chancellor
to the Stalls of the Foundation Canons**
Lesley Horrocks

**Wedi eu tywys gan y Canon Tertius
i Seddau'r Canoniaid Gwaddol**
**Led by the Canon Tertius
to the Stalls of the Foundation Canons**
Gareth Iwan Jones

**Wedi eu tywys gan y Canon Quintus
i Sedd y Canon Quartus**
**Led by the Canon Quintus
to the Stall of the Canon Quartus**
Y Parchg | The Revd Naomi Starkey

**Wedi eu tywys gan yr Is-Ddeon
i Sedd y Canon Bencantor**
**Led by the Sub-Dean
to the Stall of the Canon Precentor**
Canon Jane Coutts

Unwaith y bydd yr Archesgob wedi cyrraedd yr Orsedd Esgobol, mae'r Is-Ddeon yn gweddïo'r Weddi Osod | Once the Archbishop has arrived at the Episcopal Throne, the Sub-Dean prays the Installation Prayer

Gweddi Osod **Installation Prayer**

Our friends in Christ, we place you into the Stalls assigned to you in this Cathedral Church.

Mae'r Archddiaconaid, Canoniaid a Chlerigion newydd yn heddi eu Seddau | The new Archdeacons, Canons and Clerics are seated in their Stalls

May God, the Holy One, watch over you, your shade at your right hand, that the sun shall not strike you by day nor the moon by night. May God, the Living One, the maker of heaven and earth, your help from the hills, not let your foot be moved and preserve you in all your ways. May God, the Eternal One, watch over your going out and your coming in, from this time forth for evermore. In Christ's Holy Name.

Amen.

Yna eisteddwn ninnau; ac wedi i bawb eistedd, gweddïa'r Is-Ddeon y Weddi Waddol | We then sit; and once all are seated, the Sub-Dean prays the Foundation Prayer

Gweddi Waddol **Foundation Prayer**

Deiniol, dad a tharddiad, a godaist fangor fawr yn gysgod a noddfa, a'th godwyd â'th fagl i fugeilio Gwynedd Maelgwn gynt; cwyd i'r uchelfannau weddïau aelwyd d'olynydd yn y fangre hon, fel y cyfyd gwawrddydd ffydd, gobaith a chariad yn ein calonnau'n fythol.

Amen.

Translation

O Deiniol, our forebear and founder, who raised a great bangor for shelter and sanctuary, and who was raised with your crozier to shepherd Maelgwn's Gwynedd in those ancient days: raise to the heavenly courts the prayers of your successor's household in this sacred place, that our hearts may awaken to faith, hope and love eternally. Amen.

Gweddiau *Prayers*

Litani Leiaf *Lesser Litany*

Ŵ Gras a thangnefedd.

℞ Yng nghariad Iesu.

Gweddiwn.

Penliniwn neu eisteddwn | We kneel or sit

Trugarhâ, Dduw y Cread.

Trugarhâ, Dduw ein Gwared.

Trugarhâ, Dduw pob Cariad.

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy Enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

Ŵ O lôr, bydd drugarog dy olwg.

℞ A rho i'n waredigaeth.

Ŵ O Dduw, cofia'n Llyw.

℞ A thaena'th adain dirion dros aelwydydd ein gwlad.

Ŵ Gwisg d'Eglwys wir ag iawnder ar dy lun.

℞ A gwna ni'n etifeddion llonder.

Ŵ Bydd dryw, Dduw'r holl Gread.

℞ A moes fendith ar y waith.

Ŵ Boed hedd yn ein dydd, O Dduw.

℞ A doed awennau cymod, uwch dial a phoen, yn beraidd ar ein clyw.

Ŵ Am galon lân o'n mewn hiraethwn.

℞ A chalon wrth galon cwyd fry lân gân.

Translation

Ŵ *The Lord be with you.* ℞ *And with thy spirit. Let us pray. Lord, have mercy upon us. Christ, have mercy upon us. Lord, have mercy upon us. Our Father, who art in heaven, hallowed be*

thy Name, thy kingdom come, thy will be done, on earth as it is in heaven. Give us this day our daily bread; and forgive us our trespasses, as we forgive those who trespass against us; and lead us not into temptation, but deliver us from evil. Amen. V O Lord, shew thy mercy upon us; R And grant us thy salvation. V O Lord, save the King; R And mercifully hear us when we call upon thee. V Endue thy ministers with righteousness; R And make thy chosen people joyful. V O Lord, save thy people; R And bless thine inheritance. V Give peace in our time, O Lord; R Because there is none other that fighteth for us, but only thou, O God. V O God, make clean our hearts within us; R And take not thy Holy Spirit from us.

Gweddïau Casgl Collects

Hollalluog thragwyddol Dduw, sy'n coroni'r flwyddyn â'th ddaioni, ac yn rhoddi inni ffrwythau'r ddaear yn eu tymor: dyro i ni galonnau diolchgar, fel y defnyddiwn dy roddion yn unol â'th ewyllys; trwy Iesu Grist ein Gwardwr. Amen.

O God, from whom all holy desires, all good counsels, and all just works do proceed; give unto thy servants that peace which the world cannot give; that our hearts may be set to obey thy commandments, and also that by thee, we, being defended from the fear of our enemies, may pass our time in rest and quietness; through the merits of Jesus Christ our Saviour. Amen.

Lighten our darkness, we beseech thee, O Lord; and by thy great mercy defend us from all perils and dangers of this night; for the love of thy only Son, our Saviour, Jesus Christ. Amen.

Translation

Almighty and everlasting God, who crowns the year with your goodness, and has given to us the fruits of the earth in their season: give us, we beseech you, grateful hearts, that we may rightly use your gifts to your glory; through Jesus Christ our Saviour.

Priodolion dros y tudalen | Attributions over the page

Geiriau | Words

Addasiad cyfoes a chyd-destunol o Saesneg y **Llyfr Gweddi Gyffredin** (1662) yw'r Gymraeg | The Welsh-language text is a contemporary and contextualized adaptation of the English of the **Book of Common Prayer** (1662)

Cerddoriaeth | Music

Paul Spicer

Codwn ar ein traed | We stand



Ymadael *Departing*

Emyn **Hymn**



God, that madest earth and heaven,
darkness and light;
who the day for toil hast given,
for rest the night;
may thine angel-guards defend us,
slumber sweet thy mercy send us,
holy dreams and hopes attend us,
this livelong night.

Ti fu'n wawr y greadigaeth,
darddiad ein bod;
ac yng Nghrist sy'n ysbrydoliaeth
oll is y rhod;
tywys ni ar lwybrau uniawn
fel y cawn, mewn buchedd gyfiawn,
rwymyn cariad eto'n gyflawn
er mwyn dy glod.



**Tithau'n fachlud ein bodolaeth,
ddyheuad gwiw;
noddfa sy'n benllanw'r arfaeth,
hiraeth ein byw;
rhag fraw'r bedd, ac ing unigrwydd,
a rhag gyfrin flas euogrwydd,
dwyn ni atat, Dduw'n cyfanrwydd,
wir gariad tryw.**

**Holy Father, throned in heaven,
all-holy Son,
Holy Spirit, freely given,
blest Three in One:
grant us grace, we now implore you,
till we lay our crowns before you
and in worthier strains adore you
while ages run.**

Translation

You were the dawn of creation, the origin of our being; and in Christ are the inspiration of all things; guide us on straight paths, that we may, in a righteous life, find the bond of love again complete to your glory. ¶ You are also the sunset of our existence, our longing aspiration; a sanctuary that is the culmination of all that is providence, life's yearning; from the terror of the grave, and the agony of loneliness, and from the secret taste of guilt, bring us to you, God of our wholeness, true love.

Geiriau | Words

Reginald Heber (1783-1826); Siôn B. E. Rhys Evans

Cerddoriaeth | Music | "Ar Hyd y Nos"

Alaw werin Cymreig | Welsh folk tune

**Parhawn ar ein traed tra y traddodir y Fendiith gan yr Archesgob o'r Orsedd
Esgobol | We remain standing as the Archbishop proclaims the Blessing from the
Episcopal Throne**

Bendith **Blessing**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Daw'n cymorth yn Enw Duw.

Creawdwr nef a daear.

Bendigedig fyddo Enw Duw.

Yn awr ac am byth.

Bydded i Dduw, ffynhonnell pob daioni, inni'n lwybr a chydymaith ar y daith, er mwyn inni ofalu am greadigaeth dda Duw a dwyn ffrwyth cyfiawnder yn ein buchedd; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Amen.

Translation

Grace and peace be with you. And keep you in the love of Christ. ☩ Our help is in the Name of God. Maker of heaven and earth. ☩ Blessed be the Name of God. Now and for ever. ☩ May God, the source of all goodness, be our pilgrim path and guide, that we may care for God's good creation and bring forth in our lives the fruits of righteousness; and the blessing of God Almighty, the Father, ✠ the Son and the Holy Ghost, be among you and remain with you always. Amen.

Gollyngiad **Dismissal**

☩ Gras a thangnefedd.

☩ Yng nghariad Iesu.

☩ Bendithiwn yr Iôr.

☩ Diolch a fo i Dduw.

Translation

☩ *The Lord be with you. ☩ And with thy spirit.*

☩ *Let us bless the Lord. ☩ Thanks be to God.*

Cerddoriaeth | Music

Edward Woodall Naylor (1867-1934)

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael | We remain standing until the ministers have departed



TA RAN NON

Gŵyl Cred a'r
Celfyddydau
A Festival of
Religion and
the Arts
12-15.10.2023

Yn y flwyddyn 525, daeth Deiniol Sant i lan yr afon Tarannon, rhwng y mynyddoedd a'r môr, ac ymgartrefu yno, gan sefydlu cymuned a ddaeth yn Gadeirlan, ac sydd yn ffynnu hyd heddiw.

Tarannon yw Gŵyl Cred a'r Celfyddydau newydd y Gadeirlan – pedwar diwrnod byrlymus ym mis Hydref sy'n gyforiog o gerddoriaeth, barddoniaeth, celf, hanes, addoliad, trafodaeth a sgwrs yng nghanol Bangor.

In the year 525, Saint Deiniol came to the banks of the river Tarannon, between Snowdonia and the sea, and settled there, founding a community that became a Cathedral, and that flourishes to this day.

Tarannon is the Cathedral's new Festival of Religion and the Arts – a bustling four days in October teeming with music, poetry, visual art, history, worship, discussion and conversation in the heart of Bangor.

12 HYDREF DYDD IAU
OCTOBER THURSDAY

11.15am

**Mi Sy'n Ifanc Ffôl • When We
Were Very Young**

Datganiad o ganeuon ar
gyfer plant o bob oed • A
recital by WNO singers of
Milne & Carroll songs for
children of all ages

**Cantorion o Opera Cenedlaethol
Cymru, ynghyd â Chorwsfeistr
WNO Freddie Brown, yn canu rhai
o osodiadau Harold Fraser-Simson
o ganeuon a cherddi A. A. Milne a
Lewis Carroll**

Singers from the WNO, accompanied
by WNO Chorus Master Freddie
Brown, singing some of Harold
Fraser-Simson's settings of A. A.
Milne and Lewis Carroll songs and
poems.

12 HYDREF DYDD IAU
OCTOBER THURSDAY



Yr Athro • Prof. Helen Wilcox

5.30pm
Gosber ar Gân yr Ŵyl •
Festival Choral Evensong

Yr Athro Helen Wilcox yn pregethu
The Prof. Helen Wilcox preaching

Ymatebion | Responses, Rose;
Gwasanaeth Hwyrrol yn A | Evening
Service in A, Stanford; Great is the
Lord, Elgar; Allegro maestoso o
Sonata yn G fwyaf | from Sonata in G
major, Elgar



12 HYDREF DYDD IAU
OCTOBER THURSDAY

7.00pm

**Darlith yr Ŵyl • Festival
Lecture**

**Dafydd ym Mangor – Dafydd
ap Gwilym a Chadeirlan
Deiniol Sant • The Bard in
Bangor – Dafydd ap Gwilym
and Saint Deiniol's Cathedral**

Cyswllt Dafydd ap Gwilym
â'r Gadeirlan gyda Sara Elin
Roberts • Exploring Dafydd
ap Gwilym's links to the
Cathedral with Sara Elin
Roberts

Roedd Dafydd ap Gwilym yn un o brif
feirdd Ewrop y Canol Oesoedd. Ac
yntau'n enwog ei ganu i ferched a byd
natur, priodolir iddo gorpws enfawr
o farddoniaeth hardd a chymhleth.
Ymhlith gweithiau llai adnabyddus
Dafydd cawn gasgliad o gerddi sy'n
cyfeirio at ei ymweliad â Chadeirlan
Deiniol Sant ym Mangor. Natur a
chyd-destun ei gerddi a'i gynefindra
â'r Gadeirlan fydd testun darlith Dr
Roberts.

Dafydd ap Gwilym was one of
medieval Europe's finest poets.
Famed for his poems to women and
nature, a huge corpus of complex
but beautiful poetry is attributed
to him. Among the lesser-known
works by Dafydd we find a group of
poems that reference his visit to Saint
Deiniol's Cathedral in Bangor. The
nature and context of his poems and
his familiarity with the Cathedral will
be subject of Dr Roberts's lecture.



**Tocynnau
Tickets
£3/£0**





13 HYDREF DYDD
GWENER
OCTOBER FRIDAY

4.00pm-6.00pm
Blasu gwin a whisgi • Wine & whisky tasting

Blasu gwin a whisgi gyda'n ffrindiau o Majestic a Pendederyn • Wine and whisky tasting with our friends from Majestic & Penderyn Distillery

Dr Sara Elin Roberts

Hanesydd y Canol Oesoedd yw Sara Elin Roberts, yn arbenigo yng nghyfraith, llenyddiaeth a diwylliant Cymru a'r Mers o'r ddeuddegfed hyd y bymthegfed ganrif. Hi yw'r prif awdurdod ar gyfraith Cymru'r Canol Oesoedd, fu'n faes ei doethuriaeth ym Mhrifysgol Rhydychen, tra'i bod hefyd wedi gweithio'n helaeth ar farddoniaeth Dafydd ap Gwilym, gan gynnwys fel golygydd nifer o'i gerddi, a bu'n rhan o'r tîm a gynhyrchedd y casgliad newydd o'i waith a geir yn dafyddapgwilym.net ac a gyhoeddwyd yn *Cerddi Dafydd ap Gwilym* (2010).

Sara Elin Roberts is a medievalist specialising in the law, literature and culture of Wales and the March from the twelfth to the fifteenth centuries. An acknowledged expert on the law of medieval Wales, holding a D.Phil. from the University of Oxford, she has also worked extensively on the poetry of Dafydd ap Gwilym, including as the editor of several of his poems, and was part of the team producing the new edition of his work found at dafyddapgwilym.net and published in *Cerddi Dafydd ap Gwilym* (2010).

Traddodir y ddarlith yn Saesneg, gyda chyfeiriadau niferus i destun Cymraeg Canol gwreiddiol y bardd.

The lecture will be delivered in English, with references to Dafydd ap Gwilym's original Middle Welsh texts.

Er mwyn sicrhau bod eich gwin yn dderbyniol a'ch wisgi'n Gymreig, beth am ymuno â ni ar gyfer blasu gwin a whisgi ein gwyl. Bydd detholiad o winoedd a wisgi yn cael eu gosod allan i chi eu blasu yn eich hamdden, a bydd ein cyfeillion arbenigol o Majestic Wine ar Ffordd Caernarfon wrth law i ateb eich cwestiynau.

To ensure your wine is decent and your whisky Welsh, why not join us for our festival's wine and whisky tasting. A selection of wines and whisky will be laid out for you to taste at your leisure, and our expert friends from Majestic Wine on the Caernarfon Road will be at hand to answer your questions.



**Tocynnau
Tickets
£5**

13 HYDREF GWENER
OCTOBER FRIDAY



Gareth Dafydd Morris • Tenor

7.30pm
Tawel yw'r Môr • The Sea is
Calm Tonight

Cyngerdd o ganeuon ar gyfer tenor, bariton a phedwarawd llinynnol • A concert of songs for tenor, baritone and string quartet

Bydd pedwarawd llinynnol o Gerddorfa WNO yn ymuno â'r tenor Gareth Dafydd Morris a'r bariton Philip Lloyd-Evans i berfformio cyngerdd cyfoethog a myfyriol o ganeuon gan Warlock, Butterworth, Vaughan Williams, Barber a mwy.

The tenor Gareth Dafydd Morris and the baritone Philip Lloyd-Evans are joined by a string quartet from the WNO Orchestra for a rich and reflective concert of songs by Warlock, Butterworth, Vaughan Williams, Barber and more.



Tocynnau
Tickets
£12/£5



14 HYDREF SADWRN
OCTOBER SATURDAY



Esyllt Maelor

2.45pm
Cerddi, Cred, Cymru • Bards,
Belief, Belonging

Pedwar bardd – Siôn Aled, Sian Northey, Esyllt Maelor ac Iestyn Tyne – ar ganu ysbrydol yn y Gymraeg • Four bards – Siôn Aled, Sian Northey, Esyllt Maelor ac Iestyn Tyne – reflect on the power of the Welsh poetic voice addressing the spiritual

Bydd hon yn sesiwn iaith Gymraeg, gyda chyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

This will be a Welsh-language session, with simultaneous translation facilities.



Tocynnau
Tickets
£3/£0

14 HYDREF SADWRN
OCTOBER SATURDAY



Rhun ap Iorwerth

4.45pm
Sgwrs â Rhun ap Iorwerth
• Rhun ap Iorwerth in
conversation

Arweinydd newydd Plaid Cymru ar ei alwedigaeth a'i weledigaeth • The new leader of Plaid Cymru on vocation and vision

Bydd hon yn sesiwn ddwyieithog, gyda chyfle i gyfranwyr siarad yn Gymraeg a Saesneg, a gyda chyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

This will be a bilingual session, with the opportunity for contributors to speak in Welsh and English, and with simultaneous translation facilities.



Tocynnau
Tickets
£3/£0

14 HYDREF SADWRN
OCTOBER SATURDAY



7.30pm
Cenwch Lafar Glod • Make a Joyful Noise

500 mlynedd o gerddoriaeth gysegredig Gymreig yng nghwmni Côr Cadeirlan Deiniol Sant dan arweiniad Joe Cooper • Explore 500 years of Welsh sacred music with the Choir of Saint Deiniol's Cathedral, conducted by Joe Cooper

Mae Côr Cadeirlan Sant Deiniol yn dathlu dros 500 mlynedd o gerddoriaeth gysegredig Gymreig. Bydd taith sy'n dechrau gyda cherddoriaeth gan Thomas Tomkins yn ein harwain at gyfansoddiadau gan William Mathias, ac yn parhau i gyrraedd ein dyddiau ni, wrth i'r Côr berfformio comisiynau diweddar gan y Gadeirlan ei hun, gan gynnwys cyfansoddiadau gan Gareth Glyn, Alex Mills, Joe Cooper a Simon Ogdon.

The Choir of Saint Deiniol's Cathedral celebrates more than 500 years of Welsh sacred music. A journey beginning with music by Thomas Tomkins will lead up to compositions by William Mathias, and reaches the present day, as the Choir performs recent Cathedral commissions, including works by Gareth Glyn, Alex Mills, Joe Cooper and Simon Ogdon.



Tocynnau
Tickets
£12/£5

15 HYDREF DYDD SUL OCTOBER SUNDAY



15 HYDREF DYDD SUL OCTOBER SUNDAY

3.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses,
Leighton; Gwasanaeth Caerloyw
| Gloucester Service, Howells;
Jubilate Deo, Howells; Mawlgan |
Paeon, Howells

9.15am Cymun Bendigaid ar Gân yr Ŵyl


Yr Is-Ddeon yn pregethu
ar y thema **Crist yn y ddinas**
Cymun Gwynedd | Gwynedd
Service, Cooper; Dyfroedd o'r
Graig, Cooper; Arweingerdd, Ives

15 HYDREF DYDD SUL OCTOBER SUNDAY

11.00am Festival Choral Holy Eucharist

The Minor Canon preaching
on the theme **Christ in the city**
Spatzenmesse, Mozart; The
Heavens are Telling, Haydn; Finale
from Symphony No. 29, Mozart





Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol Deiniol Sant ym Mangor

Rhif elusen 1158340

Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywydd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copiâu print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff cynifer o'n gwasanaethau'n eu ffrydio arlein, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar sianel YouTube y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Daw'r drefn a'i chynnwys o **Llyfr Gweddi Gyffredin (1662 ac 1984)**. Mae'r llythoedd yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw'r salmyddiaeth o **The Saint Helena Breviary** (2019).

The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Charity number 1158340

Safeguarding

Safeguarding children and adults at risk is vital, and we are committed to fostering an environment where everyone is able to worship and participate in the life of Saint Deiniol's Cathedral in safety. If you have any concerns, please raise them immediately with a member of the Cathedral team.

Accessibility

A hearing loop is in use – please set hearing aids to the T setting.

Large print copies of this booklet are available from the stewards.

Lavatories are located at the east end of the Cathedral, through the door to the left of the Quire screen.

If we need to evacuate the Cathedral in an emergency, please remain seated and follow the directions of the stewards.

Sustainability and permissions

We use 100% recycled, low carbon dioxide paper.

Many of our services are streamed online, and the recording made available thereafter on the Cathedral's YouTube channel. An official photographer may be on duty. Your attendance constitutes your consent to be included in any filming, photographing, audio recording or broadcast. If you do not wish a photograph of you or a child in your care to be used by the Cathedral, please speak to a member of the Cathedral team.

Acknowledgements

Material in this order of service is reproduced under the CLL 280874. The form and content of the service are taken from **The Book of Common Prayer (1662 and 1984)**. The lessons are based on **The New Revised Standard Version of the Bible** and **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. The psalmody is that of **The Saint Helena Breviary** (2019).